# Asesiad Strwythuredig 2025

Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Ionawr 2026

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 61(3) (b) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.


## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir a rhaid i chi beidio â gwneud hynny mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid i'r deunydd gael ei gydnabod fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – fe ymatebwn ninnau yn yr iaith a ddefnyddiwyd gennych chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| Cipolwg ar yr archwiliad | | 4 |
| Ffeithiau a ffigyrau allweddol | | 6 |
| Ein canfyddiadau | | 7 |
| Argymhellion | | 25 |
| 1 | Ynglŷn â'n gwaith | 27 |
| 2 | Argymhellion archwilio blaenorol | 29 |
| 3 | Termau allweddol yn yr adroddiad hwn | 36 |
| 4 | Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio | 39 |
| Amdanom ni | | 42 |

# Cipolwg ar yr archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaethom ystyried pa mor dda y mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru'n cael ei lywodraethu a pha un a yw'n gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau. Fe wnaethom fwrw golwg ar bedwar maes yn arbennig:

- pa mor dda y mae ei fwrdd yn gweithio;
- sut y mae'n cadw golwg ar risgiau, perfformiad, ansawdd gwasanaethau, ac argymhellion archwilio;
- sut y mae'n cynhyrchu cynlluniau a strategaethau allweddol; a
- sut y mae'n rheoli ei gyllid.

2 Fe wnaethom hefyd fwrw golwg ar gynnydd yr AIA o ran rhoi argymhellion ar waith o'r canlynol:

- adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol;
- ein hadroddiad a gyhoeddwyd yn 2023 ar gynllunio'r gweithlu.

## Pam fod hyn yn bwysig

3 Mae cyrff y GIG yn dal i wynebu ystod eang o heriau sy'n gysylltiedig â'r angen i foderneiddio a thrawsnewid gwasanaethau i ymdrin â chyllid cyfyngedig, galw cynyddol, ôl-groniadau triniaeth, prinderau o fewn y gweithlu, ac ystâd sy'n heneiddio. Mae'n bwysicach nag erioed felly bod gan fyrddau cyrff y GIG drefniadau llywodraethu corfforaethol ac ariannol cryf. Mae hyn yn helpu i roi sicrwydd iddynt hwy eu hunain, i'r cyhoedd, ac i randdeiliaid allweddol eu bod yn cymryd y camau cywir i ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd da ac i ddefnyddio arian cyhoeddus yn ddoeth.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

4 Mae AaGIC yn deall yr amgylchedd anodd y mae'n gweithredu ynddo a'i heriau yn awr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys pwysau ariannol cynyddol a allai gael effaith ehangach ar weithlu'r GIG yng Nghymru.

5 Mae ganddo ffocws da ar yr anghenion o ran y gweithlu yn y tymor canolig a hir sy'n goleuo ei flaenoriaethau a fynegir yn ei gynlluniau. Mae gan AaGIC drefniadau llywodraethu, cynllunio, ac ariannol cadarn. Mae aelodau a swyddogion yn ymgysylltu, ac mae craffu a goruchwyliaeth yn dal i fod yn gryf. Dylai AaGIC ganolbwyntio yn awr ar adrodd ar fanteision ac effaith ei weithgareddau a dylunio Sesiynau Datblygu'r Bwrdd i wella'n barhaus.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

6 Rydym wedi cyflwyno tri argymhelliad i AaGIC ynghylch:

- nodi'n fwy eglur yr hyn y mae storïau yn y Bwrdd wedi'i fwriadu i'w gyflawni a pha un a yw'r eitem ar yr agenda wedi cyflawni hynny;
- gwella effaith sesiynau datblygu'r Bwrdd; a
- chryfhau negeseuon ynghylch sut y gallai risgiau ariannol cyfredol effeithio ar y sector iechyd yn y dyfodol.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

O fewn Fframwaith Uwchgyfeirio ac Ymyrryd Llywodraeth Cymru, mae AaGIC ar Lefel uwchgyfeirio 1 ar hyn o bryd.

Fe gyflawnodd AaGIC y tri amcan a dyletswydd ariannol allweddol ar gyfer 2024-25.

Cafodd y Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) 2025-2028 ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025.

Mae AaGIC wedi rhoi pob un o'n pedwar argymhelliad blaenorol ar waith yn llawn ers ein Hadroddiad Asesu Strwythuredig diwethaf.

# Ein canfyddiadau

## Pa mor effeithiol ac agored yw'r Bwrdd

**Mae'r Bwrdd a phwyllgorau'n dal i fod yn gydlynus ac yn dal i weithredu'n dryloyw. Mae'n gwella'r defnydd o brofiad dysgwyr a storïau staff ond gallai ddefnyddio Sesiynau Datblygu'r Bwrdd yn well**

### Pa mor agored i'r cyhoedd yw busnes y Bwrdd

7 Mae gan AaGIC ddiwylliant tryloyw ac mae'n ystyried busnes yn gyhoeddus lle bynnag y bo'n bosibl. Mae hyn yn cynnwys trafod materion cyfredol a risgiau sy'n dod i'r amlwg yn agored mewn sesiynau agored a'u cynnwys ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae AaGIC yn cyhoeddi agendâu a phapurau'n gyhoeddus ar ei wefan. Canfuom hefyd:

- fod gwefan AaGIC yn ei gwneud hi'n glir bod croeso i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cnawd yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd a phwyllgorau a gwylio'r sesiwn naill ai wrth iddi gael ei ffrydio'n fyw neu drwy recordiadau wedi'u cyhoeddi;
- bod papurau sesiynau cyhoeddus y Bwrdd a phwyllgorau ar gael bum niwrnod cyn pob cyfarfod ar ei wefan,

8 Dim ond pan ydynt yn gyfrinachol o ran eu natur y mae AaGIC yn trafod eitemau ar yr agenda mewn sesiynau pwyllgor caeëdig. Mae hyn yn cynnwys materion sy'n sensitif yn fasnachol, materion personol neu drafod cynlluniau sydd yn eu camau cychwynnol.

## Rhoi cymorth i gynnal busnes y Bwrdd yn effeithiol

9 Mae trefniadau AaGIC yn rhoi cymorth effeithiol i fusnes y Bwrdd a Phwyllgorau. Mae hyn yn cynnwys Rheolau Sefydlog, Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, cynlluniau dirprwyo, a pholisïau a gweithdrefnau ar uniondeb a phriodoldeb sydd wedi'u diweddaru.

10 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn dal i adolygu Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn flynyddol cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd. Mae'r rhain yn dal i fod ar gael yn gyhoeddus ar y wefan. Mae AaGIC yn cyflwyno newidiadau i'r Rheolau Sefydlog yn glir trwy newidiadau wedi'u tracio gan eu gwneud yn hawdd i'w hadolygu.

11 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn adolygu diweddariad i'r Gofrestr Datgan Buddiannau yn flynyddol. Mae hon ar gael yn gyhoeddus ym mhapurau'r pwyllgorau ar wefan AaGIC. Yr un yw'r drefn ar gyfer y Gofrestr Rhoddion, Lletygarwch a Nawdd.

12 Fe adolygodd y Bwrdd ei derfynau ariannol dirprwyedig ym mis Gorffennaf 2025 i roi adlewyrchiad gwell o'r amgylchedd ariannol cyfredol. Nid oedd AaGIC wedi diweddaru'r rhain ers eu pennu yn 2018. Pan wnaeth AaGIC feincnodi ei derfynau ariannol dirprwyedig, canfu fod y rhain yn is na rhai ei gymheiriaid. O ganlyniad, mae wedi cynyddu'r terfynau a ddylai leihau nifer y cymeradwyaethau sy'n angenrheidiol ar lefel uwch reolwyr. Fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd adolygu a chymeradwyo'r newidiadau hyn yn briodol, ac mae'r rhain bellach yn cael eu rhoi ar waith.

13 Mae AaGIC yn diweddaru polisïau sefydliadol yn unol â'u dyddiad adolygu ac mae'n gwneud cynnydd da ers ein hadroddiad y llynedd. Ym mis Chwefror 2025, fe gynhwysodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd adroddiad diweddaru ar bolisïau AaGIC yr oedd gofyn eu hadolygu. O ran y sefyllfa ym mis Ionawr 2025, dim ond pedwar polisi yr oedd angen eu diweddaru ac mae diweddariad arall i fod i gael ei gynnal ym mis Hydref 2025.

## Effeithiolrwydd cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau

14 Nid yw AaGIC wedi gwneud unrhyw newidiadau i'w strwythur pwyllgorau. Mae trafodaethau'n dal i fynd rhagddynt i wirio a sicrhau bod y strwythur cyfredol yn dal i fod yn addas ar gyfer y diben. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn darparu goruchwyliaeth ar lywodraethu a chyfrifon, ac mae'r Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg yn sicrhau trefniadau effeithiol i gynllunio, comisiynu a goruchwylio ansawdd systemau addysg. Fodd bynnag, canfu ein harchwiliad o drefniadau i sicrhau gwerth am arian lleoedd addysg a gomisiynir fod angen i'r Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg gryfhau'r ffocws yn ei agenda ar werth ac effaith dull comisiynu AaGIC – yn unol â'i gylch gorchwyl. Rydym yn bwriadu gwneud argymhelliad ynglŷn â hyn yn yr adroddiad archwilio hwnnw ar ddiwedd 2025.

15 Mae pwyllgorau'n adolygu ac yn cymeradwyo eu cylchoedd gorchwyl yn flynyddol. Mae AaGIC yn cyflwyno diweddariadau â newidiadau wedi'u tracio er rhwyddineb a thryloywder. Fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a'r Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg ill dau ddiweddaru eu cylch gorchwyl ym mis Gorffennaf 2025. Mae'r ddau ddiweddariad bellach, yn briodol, yn cynnwys cyfeiriad at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a gweithredu yn unol â hi.

16 Mae'r Bwrdd a phwyllgorau'n adolygu eu hagendâu a'u rhaglenni gwaith yn rheolaidd. Mae AaGIC wedi rhannu agendâu'n dri maes eang, sef 'agendâu cydsynio', 'materion i'w hystyried' a 'materion i'w nodi'. Mae aelodau'r Bwrdd wedi croesawu'r dull 'agendâu cydsynio' newydd ar y cyfan ac mae rhai mynychwyr yn teimlo bod hynny'n caniatáu mwy o amser i herio a chraffu ar eitemau eraill y mae mwy o frys i ymdrin â hwy. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae agendâu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn cynnwys eitemau sefydlog, ond gyda hyblygrwydd i ddwyn eitemau ymlaen neu eu symud i gyfarfod diweddarach os oes angen.

17 Mae cyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n dal i gael eu cadeirio'n dda, ac mae amseriadau'n brydlon. Ceir ystod effeithiol o graffu a herio. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae AaGIC wedi newid aelodaeth pwyllgorau i gynnal cymysgedd priodol o sgiliau. Er enghraifft, fe wnaeth AaGIC addasu aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg i gynnwys mwy o brofiad ym maes cyllid. Mae cadeiryddion yn annog mynychwyr i ofyn cwestiynau a herio mewn modd cwrtais a thaer. Mae Aelodau Annibynnol yn dwyn amrywiaeth eang o brofiad ac yn darparu cymysgedd da o arddulliau a dulliau wrth ofyn cwestiynau. Mae hyn wedi bod o fudd i aelodau mwy newydd o bwyllgorau, gan wella her adeiladol.

18 Ers mis Mai 2025, mae AaGIC wedi cyflwyno strwythur templed newydd ar gyfer adroddiadau – Sicrhau, Hysbysu, Rhybuddio. Mae'r newid wedi'i fwriadu i gadw ffocws darllenwyr ac ysgrifenwyr ar faterion a chamau gweithredu allweddol ac annog awduron i roi ystyriaeth bellach i'r hyn y mae arnynt eisiau i bwyllgorau ei wneud â gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn adroddiadau. Dywedodd aelodau Annibynnol a Gweithredol o'r Bwrdd wrthym fod y fformat hwn yn gwneud y broses o ysgrifennu a darllen adroddiadau'n fwy eglur.

19 Mae ein harsylwadau ni'n dynodi bod aelodau'r Bwrdd a phwyllgorau'n darllen papurau'n drylwyr cyn cyfarfodydd a bod mynychwyr wedi paratoi'n dda wrth ofyn cwestiynau. Mae ymatebion i geisiadau am wybodaeth yng nghyfarfodydd y Bwrdd a phwyllgorau'n amserol a phriodol.

20 Clywsom fod ar Aelodau Annibynnol eisiau mwy o ffocws ar y gwahaniaeth y mae camau gweithredu'n ei wneud. Wrth i bwyllgorau ddatblygu, mae angen i Aelodau Annibynnol sicrhau eu bod yn fodlon bod adroddiadau'n rhoi sylw priodol i werthuso, effaith a meincnodi i ateb eu gofynion.

## Clywed gan staff a defnyddwyr gwasanaethau

21 Mae'r Bwrdd yn dal i fod yn ymrwymedig i glywed gan fyfyrwyr a staff. Mae AaGIC yn defnyddio ystod o ddulliau i glywed gan ystod amrywiol o staff a myfyrwyr. Mae ei arolwg staff yn dal i gael lefelau ymgysylltu da gyda chyfradd ymateb o 86.6%. Mae swyddogion yn dangos eu bod yn defnyddio'r arolwg i lywio gwelliant parhaus. Maent yn amlygu cryfderau a meysydd i'w datblygu ochr yn ochr â chamau gweithredu ar lefelau sefydliadol ac adrannol.

22 Mae AaGIC wedi ehangu ei ystod o offer i ymgysylltu â myfyrwyr a rhanddeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys cyfarfodydd gyda myfyrwyr, cyfleusterau sgwrsio ar-lein, cyfarfodydd gydag aseswyr ymarfer a hwyluswyr addysg. Ceir cyfarfodydd anffurfiol lluosog gyda darparwyr addysg trwy gydol y flwyddyn. Mae adroddiadau gan swyddogion yn cyflwyno adborth a themâu o grwpiau cyfeirio rhanddeiliaid, yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr a gaiff ei gynnal yn annibynnol, fforymau myfyrwyr, ac arolwg y Cyngor Meddygol Cyffredinol i'r Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg.

23 Mae AaGIC yn gallu dangos hefyd bod prosesau uwchgyfeirio yn eu lle ar gyfer myfyrwyr sy'n codi pryderon. Rydym wedi gweld achosion lle mae myfyrwyr wedi codi pryderon ac AaGIC wedi ymateb yn effeithiol i'r rhain gyda phartneriaid. Mae adborth ar y cynnydd yn hyn o beth wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg. Mae hyn yn helpu'r pwyllgor i ddangos ei fod yn gwrando ac yn dysgu ac yn ymegnïo i wella'r trefniadau hyn yn barhaus.

24 Mae AaGIC wedi cynyddu nifer y cyflwyniadau Profiad Dysgwyr a roddir i'r Bwrdd. Mae dysgwyr yn cynnwys y rhai sy'n gwneud ystod o raglenni addysg e.e. israddedig, ôl-radd, arweinyddiaeth, interniaethau, rheolwyr dan hyfforddiant ac ati. Mae'r profiadau hyn yn cwmpasu ystod o brofiadau gan fyfyrwyr. Mae'r rhain yn cynnwys enghraifft o ddysgwr yn cael cymorth ychwanegol trwy'r Cynllun Cyswllt Gofal Iechyd i gael mynediad at raglen nyrsio broffesiynol, a phrofiad dysgwr a wnaeth holl aseiniadau eu cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhain yn darparu mewnwelediad defnyddiol i brofiad unigolyn. Mae AaGIC hefyd yn sicrhau bod profiadau dysgwyr yn cyd-fynd ag eitemau ar yr agenda.

25 Yn y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2025, cafwyd fideo YouTube a oedd yn dangos profiad dysgwr ar y Cynllun Cyswllt Gofal Iechyd ar yr un agenda â diweddariad ar y Strategaeth Data a Digidol. Fe wnaeth profiad dysgwr arall egluro sut y gwnaeth un myfyriwr bob aseiniad ac asesiad trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ddiweddarach yn yr un agenda, fe gyflwynodd AaGIC yr Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Iaith Gymraeg 2025-26. Fodd bynnag, gallai AaGIC fynegi'n fwy eglur beth y mae storïau yn y Bwrdd wedi'i fwriadu i'w gyflawni a pha un a yw'r eitem ar yr agenda wedi cyflawni hynny. Dylai AaGIC sicrhau hefyd nad yw'n lleihau'r amseriadau ar gyfer eitemau eraill.

## Cydlyniad a gwelliant parhaus y Bwrdd

26 Rydym yn parhau i weld lefelau da o allu ac ymgysylltiad gan y Bwrdd. Er y bu nifer o newidiadau allweddol i Aelodau Annibynnol dros y flwyddyn diwethaf, mae ymgysylltiad y Bwrdd yn dal i fod yn arbennig o dda. Mae'r Bwrdd a phwyllgorau'n cynnwys aelodau ag arbenigedd a phrofiad sylweddol mewn meysydd allweddol megis cyllid ac addysg. Dywedodd uwch swyddogion wrthym eu bod yn teimlo bod eu Haelodau Annibynnol yn mabwysiadu rôl cyfaill beirniadol yn hytrach na bod yn wrthwynebus.

27 Mae AaGIC wedi rheoli newidiadau i aelodaeth y Bwrdd mewn modd effeithiol dros y 12 mis diwethaf. Mae wedi penodi Cyfarwyddwr Meddygol newydd, mae ei Is-Gadeirydd wedi newid ac mae wedi penodi Cadeirydd newydd i'r Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg. Mae myfyrdodau gan y tîm i gyd yn gadarnhaol. Mae AaGIC yn parhau i reoli newidiadau i aelodaeth y Bwrdd yn dda ac i fuddsoddi'n ddigonol mewn hyfforddiant sefydlu i gydweithwyr newydd.

28 Mae AaGIC yn parhau i ddefnyddio sesiynau 'Briffio'r Bwrdd' i hysbysu aelodau'r Bwrdd ynghylch meysydd technegol penodol, er enghraifft genomeg a chynllunio'r gweithlu. Mae aelodau'n dynodi eu bod yn cael y sesiynau hyn yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, ceir peth awydd i ddefnyddio sesiynau datblygu'r Bwrdd llawn yn fwy effeithiol. Mae eitemau sesiwn datblygu'r Bwrdd ar hyn o bryd yn cynnwys 'Cynnydd gyda'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI)' ac 'Adolygiad Blynyddol o Barodrwydd i Dderbyn Risg'. Ceir risg y bydd sesiynau datblygu Bwrdd AaGIC naill ai'n dod yn sesiynau briffio hwy neu fel arall yn rhedeg fel cyfarfodydd Bwrdd anffurfiol, yn hytrach na datblygiad ar gyfer y Bwrdd. Dylai'r sefydliad egluro diben ac effaith sesiynau datblygu'r Bwrdd a dylunio rhaglen yn unol â hynny.

29 Mae gan y Bwrdd a phwyllgorau drefniadau cadarn i gynnal hunanasesiadau blynyddol. Mae AaGIC yn adrodd ar ddeilliannau hunanasesiadau wrth y pwyllgor perthnasol gyda dadansoddiad manwl o ganlyniadau. Mae AaGIC hefyd yn cyflwyno cynllun gweithredu i'r Bwrdd sy'n gysylltiedig â'r canfyddiadau yn yr hunanasesiadau. Mae hyn yn cynnwys camau gweithredu, perchnogion, a dyddiadau gweithredu. Canlyniad gwersi o hunanasesiadau a arweiniodd at gyflwyno fformatau adroddiadau Sicrhau, Hysbysu, Rhybuddio. Mae hyn yn dangos hunanfyfyrio a nod i lywio gwelliant parhaus dros y flwyddyn sydd i ddod.

# Darparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd

## Mae gan AaGIC drefniadau effeithiol i ddarparu sicrwydd ar gyfer y Bwrdd a phwyllgorau, gan wneud gwelliannau fel y bo angen

### Rheoli risgiau strategol

30 Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a Sicrwydd yn adolygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn briodol ac yn rheolaidd ac, fel rhan o hyn, y fframwaith rheolaeth strategol. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn amlinellu sut y mae'r Bwrdd yn adnabod y prif risgiau i gyflawni ei amcanion strategol. Mae'r fframwaith rheolaeth risg strategol yn canolbwyntio'n glir ar risgiau strategol a allai fod yn fygythiad i gyflawni blaenoriaethau'r sefydliad ac mae'n seiliedig ar fodel tair llinell sicrwydd.

31 Mae'r fframwaith rheolaeth risg strategol yn nodi'n glir pwy yw perchennog y risg, beth yw'r mathau o sicrwydd/ffynonellau sicrwydd, ac unrhyw fylchau mewn sicrwydd. Mae pob risg bellach yn cynnwys rôl a diben y 'pwyllgor sicrhau' ar gyfer pob risg strategol. Mae hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu y cytunwyd arno gyda statysau CAG (Coch, Ambr, Gwyrdd). Mae'n ddull effeithiol sy'n helpu AaGIC i fynd i'r afael â rhai o'r risgiau heriol y mae'n eu hwynebu.

32 Mae canfyddiadau o'n rhaglen archwilio ehangach, nid dim ond yn AaGIC ond ledled Cymru, yn awgrymu bod pwysau ariannol yn arwain at wneud penderfyniadau byrdymor. Gallai hyn olygu y gallai contractio ar gyfer addysg gyda phrifysgolion ddod yn fwy cymhleth. Gallai cyrff iechyd leihau eu gweithgarwch i recriwtio staff sydd newydd gael eu hyfforddi hefyd neu efallai na fydd Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i godiadau mewn cyllid ar gyfer y cynlluniau addysg a hyfforddiant.

33 Er bod AaGIC yn deall y risgiau hyn yn dda, dylai gyfleu'r canlyniadau'n fwy ffurfiol i'w randdeiliaid pe bai'r risgiau'n dod yn ffaith. Er enghraifft, os bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi cyllideb 'arian gwastad' ar gyfer y cynllun addysg a hyfforddiant, mae'n debygol y bydd hyn yn cael effaith niweidiol ar gapasiti ehangach y GIG mewn blynyddoedd i ddod. Gallai hefyd gael effaith gyfansawdd, gan gynyddu o un flwyddyn i'r llall. Er nad yw hyn yn cael effaith uniongyrchol ar AaGIC a'i swyddogaeth, gallai gael effaith sylweddol ar gydnerthedd a chynaliadwyedd gweithlu GIG Cymru yn y dyfodol. Mae AaGIC mewn sefyllfa unigryw i fynegi'r risg yn benodol wrth y GIG ehangach.

## Rheoli risgiau corfforaethol

34 Mae gan AaGIC ddull cryf o reoli risgiau corfforaethol. Fe gwblhaodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol ei archwiliad o reoli risg ym mis Chwefror 2025 ac fe roddodd sgôr sicrwydd sylweddol, gan awgrymu mân newidiadau yn unig. Fe wnaeth AaGIC ddiweddaru ei bolisi rheoli risg ym mis Ebrill 2025 a gwneud y newidiadau yn unol â chanfyddiadau'r gwasanaeth Archwilio Mewnol.

35 Mae gan AaGIC bolisi rheoli risg eglur a chofrestr risgiau corfforaethol fyw. Mae prosesau uwchgyfeirio'n eglur yn y polisi. Mae'n cynnwys templedi a chanllawiau defnyddiol i helpu'r darllenydd i gwblhau cofrestr risgiau a deall ystyr effaith risg a lefelau parodrwydd i dderbyn risg gan greu cysondeb. Yn ein Hasesiad Strwythuredig blaenorol, fe wnaethom argymell y byddai o fudd pe bai gan risgiau corfforaethol deitlau risgiau cyson i'w gwneud hi'n haws i'r darllenydd adnabod y risg. Mae AaGIC wedi ymdrin â hyn.

36 Mae AaGIC yn dangos dull tosturiol o reoli risg sy'n canolbwyntio ar wella. Mae'r polisi'n atgoffa'r darllenydd nad adlewyrchiad o ddiffyg gallu yw peidio â gallu rheoli risg, ond yn hytrach y gall fod angen i'r sefydliad reoli'r risg ar lefel uwch.

37 Mae'r gofrestr risgiau corfforaethol yn dal i fod yn ddogfen fyw ac mae bellach yn cynnwys teitlau risgiau ar gyfer pob risg. Mae AaGIC yn ychwanegu risgiau at y gofrestr ac yn tynnu risgiau oddi arni mewn modd priodol, fel rhan o'i drefniadau adolygu. Mae AaGIC yn defnyddio papurau eglurhaol sy'n cyd-fynd â'r gofrestr risgiau corfforaethol sy'n cyflwyno unrhyw ychwanegiadau neu ddiweddariadau y mae angen i bwyllgorau fod yn ymwybodol ohonynt mewn modd eglur. Er enghraifft, ym mis Gorffennaf 2025, fe dynnodd AaGIC y risg a oedd yn ymwneud â'r system CODI ddigidol newydd oddi ar y gofrestr, am bod ei gamau gweithredu wedi gostwng lefel y risg.

38 Mae'r Bwrdd yn parhau i drafod a defnyddio'r gofrestr risgiau corfforaethol i adnabod camau gweithredu i liniaru risgiau. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd, mae'r Cadeirydd yn gofyn i fynychwyr fyfyrio ynghylch y gofrestr risgiau corfforaethol i benderfynu a yw unrhyw drafodaethau a gafwyd yn golygu bod angen ei newid. Mae hyn yn ffordd ddefnyddiol o ystyried yn rheolaidd sut y mae ei gyfarfodydd yn darparu gwybodaeth ar gyfer asesu risg

## Rheoli perfformiad

39 Fe gymeradwyodd y Bwrdd Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd ym mis Mai 2025. Mae'r fframwaith newydd, a'r dangosfwrdd rheoli perfformiad sy'n cyd-fynd ag ef, yn esblygu i gynnwys mesurau effeithiau SMARTER a ffocws tymor hwy.[1] Bwriad AaGIC yw y bydd y rhain yn eu lle i oleuo'r adroddiadau ar CTCI 2026-2029.

40 Mae'r Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd a'r dangosfwrdd sy'n cyd-fynd ag ef yn cynnwys cynnydd ar amcanion y CTCI. Maent hefyd yn cynnwys peth wmbredd o ddata arall, megis cyfraddau comisiynu a llenwi, canlyniadau arolygon myfyrwyr, uwchgyfeirio, a mesurau byrdymor. Mae AaGIC yn parhau i gryfhau ansawdd y mesurau hyn a'r modd y caiff cerrig milltir y CTCI eu monitro.

---

[1] Specific, Measurable, Achievable, Relevant, Time-bound, Evaluate, Reward

41 Mae'r newidiadau i'r Fframwaith Rheoli Perfformiad wedi'u bwriadu i roi mwy o ffocws ar fetrigau strategol a chael gwared ar rywfaint o'r gweithgarwch adrodd ar berfformiad gweithredol. Bydd monitro perfformiad gweithredol yn parhau yn y Tîm Gweithredol ar y Cyd a'r Grŵp Deoniaid a Dirprwyon.

42 Cyflwynwyd yr Adroddiad Perfformiad Integredig a'r dangosfwrdd rheoli perfformiad i'r Tîm Gweithredol ar y Cyd, y Grŵp Deoniaid a Dirprwyon a'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2025. Fe gadarnhaodd AaGIC, er bod Aelodau Annibynnol yn gallu cael mynediad at y dangosfwrdd, bod mynediad gwirioneddol yn isel. O ganlyniad, mae rhagor o waith i'w wneud i roi anogaeth i ddefnyddio'r dangosfwrdd a myfyrio ynghylch unrhyw welliannau pellach y mae eu hangen.

43 Mae AaGIC yn ennyn ymgysylltiad y Bwrdd ac uwch swyddogion â gwaith i ddiweddaru ei fodel gweithredu. Y nod yw sicrhau bod ei drefniadau llywodraethu, gan gynnwys monitro perfformiad, yn addas ar gyfer y diben. Mae hyn yn cynnwys adolygu cyfrifoldebau'r Tîm Gweithredol, a'r Grŵp Deoniaid a Dirprwyon, a'r Grŵp Goruchwylio Addysg a Hyfforddiant. Nod y broses ddiweddaru yw ymdrin ag unrhyw fylchau mewn cyfrifoldeb am gyflawni strategaethau a chynlluniau, cael gwared ar ddyblygu rolau, a darparu mwy o eglurder ynghylch eu cyfrifoldebau

## Monitro ansawdd a diogelwch

44 Ceir dull eglur a chadarn o hyd ar gyfer monitro a chraffu ar ansawdd addysg a gomisiynir. Mae hyn wedi cryfhau yn sgîl cyflwyno'r Cynllun Ansawdd a datblygu'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2024-25.

45 Mae'r Cynllun Ansawdd yn amlinellu ymrwymiadau ansawdd AaGIC ac yn sefydlu dull eglur o ymgysylltu â myfyrwyr a hyfforddeion a chael adborth ganddynt i driongli adborth. Mae AaGIC wedi ehangu ei ddulliau i ymgysylltu â rhanddeiliaid i ategu hyn. Yn unol â'r gofyniad yn y Cynllun Ansawdd, fe gyhoeddodd AaGIC ei Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2024-25 gan ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Medi 2025. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys adran ddefnyddiol ar y meysydd i'w datblygu a adnabuwyd gan AaGIC yn y flwyddyn flaenorol a pha gynnydd a wnaed yn eu herbyn.

46 Mae adroddiadau i’r Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg yn canolbwyntio ar reoli ansawdd, materion o ran ansawdd, a gwelliannau i ansawdd yn y gwahanol broffesiynau (gweithwyr meddygol, deintyddol, fferylliaeth, nyrsio, ac iechyd proffesiynol). Mae adroddiadau’n cynnwys ffigyrau recriwtio a chadw ac adborth o arolygon hyfforddeion gyda chamau gweithredu cysylltiedig. Fodd bynnag, gallai AaGIC wneud mwy i ddangos yr effaith y mae’r mentrau ansawdd hyn yn ei chael ar hyfforddeion a’r gweithlu ehangach.

## Tracio a monitro argymhellion

47 Mae AaGIC yn parhau i fod â threfniadau effeithiol i dracio cynnydd gydag argymhellion archwilio. Mae AaGIC yn cyflwyno offeryn tracio argymhellion archwilio ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Mae papur eglurhaol yn cynnwys crynodebau eglur o statws argymhellion mewnol ac allanol. Mae’r pwyllgor yn cyflawni ei rôl yn effeithiol i gymeradwyo tynnu (neu wrthod cymeradwyo tynnu) argymhellion y mae o’r farn eu bod wedi cael eu cwblhau allan o’r offeryn tracio. Mae hyn yn creu haen ychwanegol o oruchwyliaeth a sicrwydd ansawdd.

48 Mae AaGIC wedi gwneud cynnydd da o ran ymdrin â’r argymhellion a wnaed yn Asesiad Strwythuredig y llynedd. Mae AaGIC wedi rhoi pob un o’n pedwar argymhelliad ar waith.

# Paratoi strategaethau a chynlluniau

## Mae gan AaGIC ddull cynhwysfawr a chydweithredol wrth ddatblygu ei gynlluniau strategol ac mae'n dechrau rhoi mwy o bwyslais ar fonitro eu heffaith

### Cynhyrchu strategaethau a chynlluniau allweddol

49 Mae gan AaGIC drefniant cadarn i ddatblygu ei CTCI a'i gynllun craidd arall, y Cynllun Addysg a Hyfforddiant. Mae AaGIC yn parhau i ddatblygu'r cynlluniau hyn yn gydweithredol, gan gynnwys rhanddeiliaid, partneriaid, ac aelodau'r Bwrdd yn rheolaidd. Canfuom hefyd ddefnydd gwell o ddata a rhagolygon i oleuo datblygiad y cynlluniau hyn. Fe wnaeth y Bwrdd gymeradwyo'r CTCI 2025-2028 ym mis Mawrth 2025 a'r Cynllun Addysg a Hyfforddiant 2026-27 ym mis Awst 2025. Ceir goruchwyliaeth a chraffu da ar gynlluniau strategol allweddol AaGIC wrth iddynt ddatblygu. Mae'r Bwrdd yn goruchwylio ac yn ymgysylltu'n dda wrth ddatblygu cynlluniau a newidiadau i gynlluniau.

50 Ym mis Mawrth 2025, fe wnaeth AaGIC bennu a chymeradwyo set o dri amcan llesiant yn unol â'r gofynion dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r amcanion llesiant wedi'u pennu tan 2030 ac maent yn wahanol i'r blaenoriaethau strategol, ond maent ill dau wedi'u cynnwys ac yn cyd-fynd â'r CTCI. Fe ymgysylltodd AaGIC ag ystod eang o randdeiliaid, yr undebau llafur, a'r Bwrdd i ddatblygu'r rhain. Cafodd adborth anffurfiol gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol cyn eu cymeradwyo hefyd. Nid oedd yn ofynnol bod yr Adroddiad Blynyddol cyntaf, ar gyfer 2024-25, ers i ofyniad y Ddeddf ddod i rym yn cynnwys diweddariadau ar gynnydd yn erbyn yr amcanion llesiant. Mae AaGIC yn cydnabod y bydd hyn yn ofyniad ar gyfer adroddiadau blynyddol yn y dyfodol.

51 Mae AaGIC yn datblygu strategaeth addysg dros ddau gam rhwng 2025-26 a 2026-27. Y bwriad yw y bydd y strategaeth newydd hon yn helpu i roi ffocws i'r gwaith sy'n ofynnol i roi cymorth i gyflawni'r strategaeth genedlaethol Cymru gyfan ehangach ar gyfer y gweithlu. Ar adeg ein gwaith ni, roedd y sefydliad ar y trywydd iawn i gyrraedd y cerrig milltir ar gyfer datblygu'r strategaeth hon.

52 Mae AaGIC yn casglu ac yn dadansoddi amrywiaeth eang o wybodaeth fusnes i ddatblygu cynlluniau allweddol. Ceir dealltwriaeth dda am risgiau yn y dyfodol trwy sganio'r gorwel a modelu'r gweithlu. Bydd y Strategaeth Addysg sy'n esblygu'n parhau i ddefnyddio'r wybodaeth hon ac i helpu i ddatblygu'r blaenoriaethau yn y blynyddoedd nesaf.

## Sicrwydd y Bwrdd ynghylch gweithio mewn partneriaeth

53 Mae gan AaGIC bartneriaethau sydd wedi hen ennill eu plwyf. Mae gan AaGIC Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ac mae'n ymgysylltu'n uniongyrchol ac yn rheolaidd â chyrff iechyd, darparwyr addysg, Llywodraeth Cymru, Colegau Brenhinol, ac Undebau. Mae AaGIC yn ymwybodol bod gan rai partneriaid proffesiynol lais cryfach na'i gilydd ac mae'n chwilio am ffyrdd o sicrhau ei fod yn clywed yr holl bartneriaid yn gyfartal. Mae AaGIC hefyd wedi datblygu cynllun rhanddeiliaid ac ymgysylltu drafft ar gyfer ei Strategaeth Addysg newydd. Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r cynllun drafft hwn sy'n amlygu dull cadarnhaol AaGIC o ymgysylltu â'i randdeiliaid.

54 Fe gymeradwyodd AaGIC ei Fframwaith Strategol Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2025-2030 ym mis Mawrth 2025. Mae'r fframwaith hwn yn cydnabod y perthnasoedd sydd wedi datblygu ers sefydlu AaGIC. Fodd bynnag, mae AaGIC yn teimlo bod rhai rhanddeiliaid yn dal i beidio â bod â dealltwriaeth lawn am rôl a swyddogaethau unigryw'r sefydliad. Mae'r fframwaith wedi'i fwriadu i gyflawni dull ymgysylltu a chyfathrebu mwy strwythuredig a systematig, cynyddu ymwybyddiaeth o'r gwaith a gwella cydweithio a chydgynhyrchu.

## Monitro'r modd y cyflawnir strategaethau/cynlluniau

55 Mae gan AaGIC drefniadau cryf i fonitro'r modd y cyflawnir strategaethau a chynlluniau. Mae'r Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg yn monitro cynnydd gyda'r Cynllun Addysg a Hyfforddiant ar ran y Bwrdd. Mae AaGIC yn rhannu adroddiadau'n feysydd arbenigedd, sy'n helpu i roi ffocws i oruchwyliaeth ar agweddau allweddol. Mae'r Bwrdd hefyd yn monitro cynnydd gyda'r CTCI yn briodol trwy'r Adroddiad Perfformiad Integredig.

56 Mae’r Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd yn amlinellu gofynion adrodd ar berfformiad ar bob lefel. Bydd y Bwrdd a phwyllgorau’n cael adroddiadau drwy eithriad i ddarparu sicrwydd yn erbyn amcanion allweddol. Dylent hefyd gael manylion cynnydd gyda chyflawniadau allweddol ac o ran cyflawni rhaglenni. Mae hyn yn cynnwys cryfhau’r dystiolaeth o effaith a gwerth sy’n deillio o gyflawni ei gynlluniau allweddol.

57 Mae’r Tîm Gweithredol ar y Cyd a’r Grŵp Deoniaid a Dirprwyon yn cael gwybodaeth fanwl am berfformiad gweithredol. Rydym yn deall y bydd hyn yn gynyddol yn cynnwys asesiad o effaith a gwerth cyflawni amcanion. Yn y dyfodol, dylai’r gwerthusiad hwn o effaith a gwerth helpu’r Bwrdd i bennu blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol a sut orau i ddyrannu ei adnoddau.

58 Gofynnodd y Bwrdd yn benodol am gryfhau’r Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd i adlewyrchu effaith yn well. Mae’r Adroddiad Perfformiad Integredig a gyflwynwyd i’r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2025 yn cynnwys peth naratif ar effaith camau gweithredu, ond mae’r math yma o adroddiadau’n dal i ddatblygu. Fodd bynnag, mae AaGIC eisoes yn casglu peth wmbredd o ddata a fyddai’n diffinio agweddau ar effaith, megis myfyrwyr sy’n symud o addysg i gyflogaeth. Adroddir ar yr wybodaeth hon wrth y Tîm Gweithredol ar y Cyd, ond nid yw’n amlwg a yw’r Bwrdd yn gweld y data yma yng nghyd-destun craffu ar berfformiad ar y cyfan.

# Rheoli cyllid

## Cyflawnodd AaGIC ei ddyletswyddau ariannol ar gyfer 2024-25, mae ganddo ddull rheoli ac adrodd ariannol da, ac mae'n cryfhau'r modd y rheolir bwrsariaethau

### Cyflawni amcanion a dyletswyddau ariannol

59 Fe wnaeth AaGIC gyflawni'r tri amcan a dyletswydd ariannol allweddol ar gyfer 2024-25. Fodd bynnag, adnabu'r Archwiliad o'r Cyfrifon orwariant y tu hwnt i'r terfyn adnoddau cyfalaf oherwydd anfonebau wedi'u camddosbarthu. Yn dilyn hyn, fe wnaeth AaGIC ddatrys y mater hwn yn llawn gyda Llywodraeth Cymru.

60 Yn hanesyddol, mae AaGIC wedi dychwelyd arian i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn os oedd tanwariannau cyllidebol. Roedd y tanwariannau hyn gan mwyaf o ganlyniad i leoedd addysg heb eu llenwi a chyfraddau gadael cyrsiau (myfyrwyr yn gadael cyrsiau cyn pryd). Ar gyfer 2024-25, fe newidiodd y sefyllfa hon. Daeth y sefyllfa ariannol ar y cyfan yn fwy o her ac roedd AaGIC yn wynebu risgiau ariannol mwy. O ganlyniad, defnyddiodd danwariannau comisiynu addysg i wneud iawn am orwariannau mewn meysydd eraill. Roedd hyn yn cynnwys cyllido nifer uwch na'r disgwyl o fwrsariaethau myfyrwyr oherwydd newid ym mholisi Llywodraeth Cymru. Mae'r Bwrdd yn gweld y risgiau a'r cyfleoedd ariannol hyn yn llawn. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyllid bapur ar risgiau ariannol a bu'r Bwrdd yn trafod y dull hwn ym mhob cyfarfod.

61 Mae AaGIC wedi cael arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26. Mae'r arian hwn ar gyfer niferoedd uwch sydd wedi hawlio'r bwrsariaeth a ffioedd uwch. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu unrhyw gostau ychwanegol mewn perthynas â'r meysydd hyn os nad ydynt yn cael eu talu o ganlyniad i leoedd sydd heb eu llenwi a chyfraddau gadael. Felly, mae'r risg na fydd AaGIC yn adennill costau yn 2025-26 yn isel.

## Trefniadau cynllunio ariannol

62 Mae gan AaGIC drefniadau cadarn ar gyfer adnabod, cyflawni a monitro ei gyfleoedd i wella costau. Rydym yn cydnabod bod cyfleoedd AaGIC ar gyfer gwelliannau mewn costau'n cael eu pennu i raddau helaeth gan nifer y lleoedd hyfforddi y mae angen iddo'u comisiynu ar ran GIG Cymru.

63 Mae CTCI AaGIC ar gyfer 2025-2028 yn dal i amlinellu'n glir beth yw Cynllun Ariannol y sefydliad y mae'n ei ragweld dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'r cynllun yn amlygu'r lefel uwch o risg ariannol ar gyfer 2025-26, oherwydd y cynnydd yn y myfyrwyr sy'n hawlio'r fwrsariaeth a'r cynnydd mewn ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau israddedig. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r cynllun ariannol yn ymwneud i raddau helaeth ag ymrwymiadau ariannol yn y Cynllun Addysg a Hyfforddiant a chontractau addysg cysylltiedig. Mae'r Cynllun Ariannol ar gyfer 2025-26 yn tybio y bydd cyfraddau llenwi ar gyfer cyrsiau a chyfraddau gadael yn debyg i'r blynyddoedd diwethaf. Mae AaGIC yn adolygu'r tybiaethau hyn yn rheolaidd.

64 Mae gan AaGIC lefel dda o oruchwyliaeth ar drefniadau cynllunio ariannol corfforaethol, gyda chraffu eglur ar lefelau'r Bwrdd a phwyllgorau. Mae hyn yn cynnwys mwy o drafodaeth am risg ariannol. Mae cynlluniau'n dangos bod AaGIC yn cydnabod mai gallu cyfyngedig fydd i ysgwyddo gwaith ychwanegol, y tu allan i'w swyddogaeth statudol, oni bai bod Llywodraeth Cymru'n adnabod cyllid ychwanegol.

65 Fe gynhaliom ni Adolygiad o Drefniadau Gwella Costau yn 2024. Yn yr archwiliad hwn, fe ganfuom fod y Bwrdd yn craffu ar gynlluniau ariannol a'i fod yn ymgysylltu'n llawn â newidiadau yn ystod y flwyddyn. Rydym yn cydnabod y cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer cynlluniau penodol i wella costau, am bod AaGIC yn gomisiynydd hyfforddiant strategol. Ond mae AaGIC yn amcanu at feincnodi i adnabod unrhyw welliannau pellach i gostau. Rydym yn nodi bod hyn yn anodd, gan nad oes gan AaGIC sefydliad uniongyrchol gymaradwy i wneud y math yma o waith.

## Trefniadau rheoli ariannol

66 Mae Archwilio Cymru wedi rhoi barn ddiamod ar gyfrifon 2024-25. Mae hyn yn cynnwys un mater arwyddocaol a godwyd ynglŷn â'r methiant i gydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Ariannol Sefydlog ynghylch gwario o fewn ei derfyn adnoddau cyfalaf. Mae AaGIC wedi datrys y mater hwn, ac fe wnaeth Archwilio Cymru argymhelliad i sicrhau bod AaGIC yn rheoli'r mater hwn yn y dyfodol.

67 Mae gan AaGIC drefniadau effeithiol i adolygu a chymeradwyo unrhyw newidiadau sy'n ofynnol i'w Reolau Sefydlog. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn adolygu Rheolau Sefydlog cyn eu cyflwyno i'r Bwrdd i'w cymeradwyo'n derfynol. Ceir goruchwyliaeth a chraffu cadarn ar ymarferion caffael arbennig hefyd, megis hepgoriadau tendr sengl. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn cael diweddariad rheolaidd ar weithgarwch cydymffurfio â rheolau caffael, megis gweithredoedd dyfynbris sengl, gweithredoedd tendr sengl, a chyllid y tu allan i delerau a gontractiwyd.

68 Fe wnaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd gymeradwyo newidiadau i'w weithdrefnau rheolaeth ariannol a diwygio ei broses adolygu ym mis Hydref 2024. Roedd y dull hwn wedi'i fwriadu i greu adolygiad treigl o Weithdrefnau Rheolaeth Ariannol gydag adolygiad ar y cyfan yn digwydd bob tair blynedd. Dylai'r trefniadau newydd hyn sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn gallu craffu ar unrhyw newidiadau a chymeradwyo'r newidiadau hynny mewn ffordd fwy amserol a gwneud y broses yn fwy effeithlon.

69 Mae dull gwrth-dwyll AaGIC, a ddarperir gan dîm gwrdd-dwyll Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn ateb gofynion Awdurdod Gwrth-dwyll y GIG yn llawn. Mae'r rheolwr gwrth-dwyll yn cyflwyno adroddiad gwrth-dwyll trimisol ac adroddiad gwrth-dwyll blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Mae diweddariad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd hefyd yn nodi unrhyw faterion allweddol y mae angen eu dwyn i sylw'r Bwrdd. Hyd yma, mae'r tîm gwrth-dwyll hefyd wedi ymgysylltu'n dda ynghylch risgiau posibl a adnabuwyd trwy ymarfer paru data'r Fenter Twyll Genedlaethol.

70 Er bod rheolaethau ariannol da yn gyffredinol, rhoddodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol sicrwydd cyfyngedig ynghylch Cynllun Bwrsariaeth AaGIC. Fe ganolbwyntiodd yr archwiliad ar brosesau i fonitro myfyrwyr trwy gydol y cwrs a phan ydynt yn graddio, gan gynnwys sut y mae hyn yn effeithio ar drefniadau cytundebol ynghylch cyllid bwrsariaeth. Mae AaGIC wedi datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i'r archwiliad hwn y mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn ei fonitro.

## Monitro perfformiad ariannol

71 Mae gan y Bwrdd oruchwyliaeth gref ar berfformiad ariannol. Mae adroddiadau cyllid yn dangos risgiau a chyfleoedd ariannol yn glir ac yn darparu safbwynt tryloyw arnynt. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o ran cyflawni ei ddyletswyddau ariannol, megis mantoli'r gyllideb. Mae dull AaGIC o fonitro ei sefyllfa ariannol yn arwain at drafodaethau cryfach am ei flaenoriaethau. Mae'r trafodaethau hyn yn cynnwys i ba raddau y gall y sefydliad barhau i ysgwyddo mentrau ychwanegol pan fo hynny'n dwyn risg ariannol.

72 Ceir naratif defnyddiol ynghylch risgiau a chyfleoedd ariannol mewn adroddiadau ariannol. Maent hefyd yn cynnwys rhai camau gweithredu y bydd AaGIC yn eu cymryd i leihau'r tebygolrwydd o risgiau ariannol a'u heffaith. Fodd bynnag, gallai wneud adroddiadau ariannol yn fwy eglur trwy amlygu'r camau gweithredu hyn yn benodol mewn adran ar wahân ac adolygu eu heffaith.

# Argymhellion

73 Mae'r tabl canlynol yn manylu ar yr argymhellion a gododd o'n gwaith.

## Argymhellion

| | |
|---|---|
| **A1** | Dylai AaGIC fod â chanllawiau cryf a chyson i gasglu a thriongli'r wybodaeth o gyflwyniadau profiad dysgwyr (**paragraff 25**). |
| **A2** | Dylai AaGIC egluro diben ac effaith Sesiynau Datblygu'r Bwrdd a dylunio rhaglen yn unol â hynny (**paragraff 28**). |
| **A3** | Dylai AaGIC gyfleu'n ffurfiol i randdeiliaid sut y gall ei bwysau ariannol greu risg i gynaliadwyedd gweithlu ehangach y GIG (**paragraff 33**). |

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom fwrw golwg ar y meysydd canlynol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2025.

- Pa mor dda y mae'r Bwrdd yn gweithio.
- Pa mor dda y mae'r Bwrdd yn goruchwylio risgiau, perfformiad, ansawdd a diogelwch gwasanaethau ac yn tracio argymhellion archwilio.
- Pa mor dda y mae'r corff yn paratoi strategaethau a chynlluniau allweddol.
- Pa mor dda y mae'r corff yn rheoli ei gyllid.

Ni wnaethom fwrw golwg ar drefniadau gweithredol y corff.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Fe wnaeth ein harchwiliad ymdrin â'r cwestiynau canlynol:

- A yw'r Bwrdd yn cynnal ei fusnes yn briodol, yn effeithiol, ac yn dryloyw?
- A oes dull corfforaethol cadarn o reoli risgiau, perfformiad, ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau?
- A oes dull corfforaethol cadarn o gynhyrchu cynlluniau strategol a goruchwylio'r modd y'u cyflawnir?
- A oes dull corfforaethol cadarn lle mae cynllunio, rheoli a pherfformiad ariannol yn y cwestiwn?

### Meini Prawf

Cafodd ein cwestiynau archwilio eu siapio gan y canlynol:

- Rheolau Sefydlog Enghreifftiol, Cynlluniau Cadw a Dirprwyo Pwerau;
- Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog Enghreifftiol;
- Cylchlythyrau a chanllawiau iechyd perthnasol gan Lywodraeth Cymru; a hefyd

- Y Canllaw Llywodraethu Da ar gyfer Byrddau GIG Cymru (Ail Rifyn).

## Dulliau

Fe wnaethom adolygu ystod o ddogfennau, gan gynnwys:

- Papurau a chofnodion y Bwrdd a phwyllgorau.
- Dogfennau llywodraethu allweddol, gan gynnwys Rheolau Sefydlog a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.
- Strategaethau a chynlluniau allweddol, gan gynnwys y CTCI.
- Dogfennau rheoli risg allweddol, gan gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.
- Adroddiad Blynyddol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
- Polisïau a gweithdrefnau perthnasol.
- Adroddiadau a baratowyd gan gyrff allanol perthnasol eraill.

Fe wnaethom gyfweld â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol:

- Cadeirydd AaGIC;
- Is-Gadeirydd AaGIC;
- Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd;
- Cadeirydd y Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg;
- Prif Weithredwr;
- Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad; ac
- Ysgrifennydd y Bwrdd.

Fe wnaethom arsylwi ar gyfarfodydd y Bwrdd yn ogystal â chyfarfodydd y pwyllgorau canlynol:

- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd; a'r
- Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg.

# 2 Argymhellion archwilio blaenorol

## Argymhellion a oedd yn dal yn weddill o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynnydd a wnaed gan AaGIC o ran gweithredu ar argymhellion a oedd yn dal yn weddill o adroddiadau asesu strwythuredig blaenorol.

| Argymhelliad | Statws |
|---|---|
| **Argymhelliad 1 o 2024**<br><br>Dylai AaGIC gesio cynnwys eitem agenda reolaidd yn ei gyfarfodydd bwrdd ar 'straeon' myfyrwyr/hyfforddeion i helpu aelodau i ddeall profiad y dysgwr.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Chwefror 2025 | **Wedi'i gwblhau (Paragraff 22)** |
| **Argymhelliad 2 o 2024**<br><br>Er y dyrennir risgiau strategol i bwyllgorau yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, dylai AaGIC egluro rôl y 'pwyllgor sicrwydd' i sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Mai 2025 | **Wedi'i gwblhau (Paragraff 31)** |

| Argymhelliad | Statws |
| --- | --- |
| **Argymhelliad 3 o 2024**<br><br>Dylai AaGIC sicrhau bod gan risgiau corfforaethol deitlau risg clir a chyson sy'n caniatáu i'r darllenydd nodi'n syth y risg sy'n cael ei chyflwyno iddo.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau:** Chwefror 2025 | **Wedi'i gwblhau (Paragraff 35)** |
| **Argymhelliad 4 o 2024**<br><br>Dylai AaGIC nodi a mynegi'n glir yr effaith a'r manteision y bwriedir i'r camau gweithredu eu cael, yn ei gynlluniau.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau:** Mai 2025 | **Wedi'i gwblhau (Paragraffau 56 i 58)** |

# Argymhellion o’n Hadolygiad yn 2023 o Drefniadau Cynllunio’r Gweithlu

Fe gyflwynom ni chwe argymhelliad i AaGIC fel rhan o’r adolygiad hwn. O ran y sefyllfa ym mis Medi 2025, mae ein hasesiad yn dangos bod pob un wedi’i gwblhau.

| Argymhelliad | Statws |
| --- | --- |
| **Argymhelliad 1 o 2024**<br><br>**Trefniadau llywodraethu rhaglenni Strategaeth y Gweithlu**<br><br>Daethom o hyd i fwriad da i ddatblygu trefniadau llywodraethu rhaglenni strategaeth traws-sector ar gyfer Cam 2 o weithredu'r Strategaeth. Ond gyda chyflwyno bwrdd gweithredu cynllun gweithlu cenedlaethol newydd, nid yw'n glir sut y bydd elfennau traws-sector o'r strategaeth genedlaethol yn cael eu goruchwylio. Mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, dylai AaGIC ffurfioli'r trefniadau rheoli rhaglenni a llywodraethu ar gyfer Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. (Blaenoriaeth - Uchel)<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Ebrill 2024 | **Wedi’i gwblhau**<br><br>Mae’r dirwedd ffurfiol ar gyfer gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru wedi newid ers ein hargymhelliad gwreiddiol. Fodd bynnag, er gwaethaf y newid hwn ceir tystiolaeth o ddeialog barhaus rhwng Gofal Cymdeithasol Cymru ac AaGIC, trwy Fyrddau ffurfiol ar gyfer meysydd penodol megis Cynllun y Gweithlu Iechyd Meddwl Strategol ac yn fwy anffurfiol. |

| Argymhelliad | Statws |
|---|---|
| **Argymhelliad 2 o 2023**<br><br>**Fframwaith Cynllunio'r GIG**<br><br>Dylai AaGIC weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru i lunio gofynion cynllunio'r gweithlu o fewn fframwaith cynllunio blynyddol Llywodraeth Cymru. (Blaenoriaeth - Uchel).<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau:** Hydref 2023 | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Mae AaGIC wedi cwblhau rhaglen o waith i ddatblygu ystod o adnoddau safonol, seiliedig-ar-dystiolaeth i roi cymorth i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth cynllunio'r gweithlu ar draws GIG Cymru. Mae hyn yn cynnwys datblygu hyfforddiant a datblygiad ar-lein, offer a chanllawiau cynllunio a gwybodaeth am y gweithlu o ddata ac o ymchwil. |
| **Argymhelliad 3 o 2023**<br><br>**Cefnogi gwelliannau ansawdd cynlluniau gweithlu ehangach y GIG (Blaenoriaeth – Uchel)**<br><br>Nid yw AaGIC yn gyfrifol am graffu ar strategaethau a chynlluniau gweithlu ar draws GIG Cymru. Dylai AaGIC archwilio opsiynau gyda Llywodraeth Cymru sy'n arwain at fabwysiadu rôl yn fwy penodol wrth gefnogi paratoi elfennau gweithlu ac addysg cyrff y GIG yn y GIG. Dylai'r trafodaethau hyn hefyd nodi sut y gallai AaGIC gael rôl wrth lunio trosolwg o themâu allweddol o'r IMTPs a chynnull sgyrsiau cynllunio gweithlu cenedlaethol fel rhan o'r broses ddatblygu IMTP. (Blaenoriaeth - Uchel).<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau**: Rhagfyr 2023 ac Ebrill 2024 | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Mae llinell amser datblygu'r Cynllun Addysg a Hyfforddiant 2025-26 yn cynnwys ymgysylltu sylweddol â Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd i ddeall eu gofynion o ran cynllunio'r gweithlu.<br><br>Defnyddiwyd cyflwyniad ar ddatblygu'r Cynllun Addysg a Hyfforddiant 2025-26 i ymgysylltu â Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd. Defnyddiwyd yr ymgysylltu hwn i gyfrannu at ddatblygu'r Cynllun Addysg a Hyfforddiant 2025-26 a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig 2025-2028.<br><br>Mae'r Cynllun Addysg a Hyfforddiant 2025-26 hefyd yn cynnwys dadansoddiad o Gynlluniau Tymor Canolig Integredig Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd. Mae hyn yn cynnwys eu hymatebion i naw cwestiwn lefel-uchel ynglŷn â chynllunio'r gweithlu. |

| Argymhelliad | Statws |
|---|---|
| <u>**Argymhelliad 4 o 2023**</u><br><br>**Gwneud y mwyaf o effaith cyllid addysg**<br><br>Nododd cyrff iechyd wrthym y byddai'n ddefnyddiol cael gwell syniad o gyfraddau priodoli myfyrwyr, y rhai sy'n newid i astudiaethau rhan-amser a nifer y myfyrwyr sy'n bwriadu gweithio i'r corff iechyd. Fel rhan o ddatblygiadau arsyllfa cynllunio'r gweithlu AaGIC, dylai gryfhau sut mae'n dadansoddi ac yn adrodd ar y math hwn o wybodaeth i gyrff iechyd perthnasol. (Blaenoriaeth - Uchel).<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau:** Lansio ym mis Mawrth 2024 | **Wedi’i gwblhau**<br><br>Mae nifer o ddangosfyrddau’n cael eu defnyddio’n weithredol gan sefydliadau’r GIG. Hyrwyddir y dangosfyrddau hyn trwy ystod eang o ddulliau gan gynnwys cyfarfodydd Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Grwpiau Cyfeirio Rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru ac amryw ddigwyddiadau ymgysylltu.<br><br>Mae peth gwybodaeth ar gael i Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd ar gais. Ond mae AaGIC yn dal wrthi’n datblygu’r dangosfwrdd ‘O Ddenu i Recriwtio’. Bydd y dangosfwrdd hwn yn cynnwys mewnwelediad ynghylch myfyrwyr sy’n dechrau, myfyrwyr gweithredol ac unrhyw darfu ar astudio. |

| Argymhelliad | Statws |
|---|---|
| <u>**Argymhelliad 5 o 2023**</u><br><br>**Gwneud y mwyaf o effaith cyllid addysg**<br><br>Canfu ein hadolygiad nad yw'r holl gyllid ar gyfer lleoedd addysg a hyfforddiant wedi'i ddefnyddio oherwydd anallu Sefydliadau Addysg Uwch i lenwi lleoedd a gomisiynwyd ac agwedd myfyrwyr, gan arwain at £22.1 miliwn yn dychwelyd cyllid i Lywodraeth Cymru yn 2022-23. Mae'r sefydliad wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i weithio gyda phartneriaid strategol allweddol i ddeall y rhesymau y tu ôl i niwed ar gyrsiau a chymryd camau i leihau atafaeliad. Yn ogystal, dylai AaGIC: | **Wedi'i gwblhau** |
| a) adolygu ymgyrchoedd hyrwyddo addysg a chryfhau dulliau o lenwi lleoedd addysg a hyfforddiant; | a) Mae ymgyrchoedd hyrwyddo'n cynnwys grŵp 'Ymgymryd â Nyrsio', negeseuon cryfach ar y wefan ac ymgyrch radio cenedlaethol. Mae gwerthusiad o effeithiolrwydd hyn wrthi'n cael ei adolygu. Mae AaGIC hefyd wedi datblygu cynllun gweithredu 12 pwynt i gynyddu gweithgarwch recriwtio nyrsys. |
| b) casglu, dadansoddi ac adrodd ar y niferoedd a'r gyfran o fyfyrwyr a raddiodd ac yn y pen draw yn gweithio yn GIG Cymru; | b) Roedd cyflwyniad yn Sesiwn Datblygu'r Bwrdd ym mis Hydref 2023 yn cynnwys cyfraddau comisiynu a llenwi. Hefyd, mae AaGIC yn defnyddio data o systemau digidol y GIG i oleuo dangosfyrddau a deall y llif gyflogaeth. |
| c) ymgymryd â gwaith sy'n ceisio gwneud y mwyaf o'r gyfran o'r rhai sy'n mynd ymlaen i weithio yn GIG Cymru ar ôl cwblhau cyrsiau hyfforddi a gomisiynwyd gan AaGIC.<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau:** Rhagfyr 2023 | c) Ynghyd â symleiddio, fe gynhaliodd AaGIC ymarfer i recriwtio myfyrwyr nyrsio rhyngwladol ym mis Medi 2023 sy'n pedwaru nifer y lleoedd ar gyfer gweithwyr cymorth ar y rhaglen nyrsio Lefel 4. |

| Argymhelliad | Statws |
| --- | --- |
| **Argymhelliad 6 o 2023**<br><br>**Mesur Effaith**<br><br>Gwelsom fod y Mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar ran AaGIC wrth gyflawni'r Strategaeth, ond mae'r rhain yn adroddiadau sy'n canolbwyntio ar dasgau heb fawr o wybodaeth am ba effaith y mae cyflawni'r Strategaeth yn ei chael ar heriau gweithlu'r GIG. Er mwyn cryfhau sicrwydd y Bwrdd, dylai AaGIC ddatblygu set o fesurau effaith cadarn, mesuradwy, sy'n cyd-fynd â'r canlyniadau a fwriadwyd fel y disgrifir yn ei gynllun gweithredu IMTP. (Blaenoriaeth - Uchel).<br><br>**Dyddiad targed ar gyfer ei gwblhau:** Gwanwyn 2024 | **Wedi'i gwblhau**<br><br>Gofynnodd y Bwrdd am gryfhau'r Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd i adlewyrchu effaith yn well. Mae AaGIC wedi cynnwys agweddau ar hyn o fewn y Dangosfwrdd Rheoli Perfformiad newydd ar y lefel o fanylder trwy ddatblygu mesurau byrdymor. Fodd bynnag, mae AaGIC wrthi'n datblygu casgliad o fanteision tymor hwy y mae'n bwriadu casglu data arnynt a bwriedir i hyn fod ar gael ar gyfer CTCI 2026-2029.<br><br>Mae AaGIC eisoes yn casglu peth wmbredd o ddata a fyddai'n diffinio agweddau ar effaith, megis camu o addysg i gyflogaeth yr adroddir arno wrth y Tîm Gweithredol ar y Cyd fel rhan o fframwaith goruchwyliaeth a sicrwydd Llywodraeth Cymru. Mae peth o hyn ar gael hefyd mewn adroddiadau i'r Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg ac o fewn y Dangosfwrdd Rheoli Perfformiad. Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud o hyd i ddod â'r holl ddata yma ynghyd i adrodd y stori am effaith AaGIC. |

# 3 Termau allweddol yn yr adroddiad hwn

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Cofrestr Buddiannau** | Mae'r Gofrestr Buddiannau'n helpu i sicrhau tryloywder trwy gofnodi unrhyw fuddiannau personol neu fusnes gan aelodau'r Bwrdd a staff a allai ddylanwadu ar benderfyniadau. |
| **Cofrestr Risgiau Corfforaethol** | Mae Cofrestr Risgiau Corfforaethol yn nodi risgiau arwyddocaol y sefydliad (naill ai'r rhai â sgoriau uchel neu ag effaith ar draws y sefydliad cyfan) a'r camau gweithredu sydd yn eu lle i'w rheoli. |
| **Colledion** | Mae colledion yn cynnwys pethau fel lladrad, twyll, gordaliadau, neu ddifrod i eiddo. |
| **Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog** | Mae Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog yn nodi'r cyfrifoldebau, polisïau a gweithdrefnau ariannol a fabwysiadwyd gan y sefydliad. |
| **Cynllun Cadw a Dirprwyo** | Mae'r Cynllun Cadw a Dirprwyo'n nodi pa gyfrifoldebau sy'n aros gyda'r Bwrdd, a pha rai a drosglwyddir i bwyllgorau a swyddogion gweithredol, ynghyd â threfniadau adrodd i sicrhau goruchwyliaeth briodol. |
| **Cynllun Tymor Canolig Integredig** | Cynllun tair blynedd yw Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n nodi sut y bydd y sefydliad yn darparu ei wasanaethau, yn rheoli ei weithlu, ac yn cyflawni ei ddyletswyddau ariannol i adennill costau. Mae'r sefydliad yn cyflwyno ei gynllun i Lywodraeth Cymru i gael ei gymeradwyo. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)** | Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio'n gynaliadwy ac yn gydweithredol i wella llesiant ar draws meysydd cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, trwy bennu nodau hirdymor (a elwir yn amcanion llesiant), cynnwys dinasyddion, a gwneud penderfyniadau sy'n ystyried yr effaith ar genedlaethau'r dyfodol. |
| **Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd** | Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig ag amcanion strategol y sefydliad, a'r rheolaethau a'r sicrwydd sydd yn eu lle i reoli'r risgiau hynny. |
| **Gweithred Tendr Sengl** | Ystyr Gweithred Tendr Sengl yw pan fo sefydliad yn prynu nwyddau neu wasanaethau gan un cyflenwr heb fynd trwy broses gystadleuol, fel arfer am mai dim ond un opsiwn addas sydd neu am bod eu hangen ar frys. |
| **Gwrth-Dwyll** | Mae gwrth-dwyll yn cyfeirio at y gweithgarwch a gyflawnir gan y sefydliad i atal, canfod ac ymchwilio i dwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth. Arweinir y gwaith hwn gan Wasanaeth Gwrth-Dwyll y GIG yng Nghymru, sy'n gweithredu dan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. |
| **Llywodraethu Ansawdd** | Ystyr llywodraethu ansawdd yw'r cyfuniad o strwythurau, prosesau ac ymddygiadau a ddefnyddir gan sefydliad, yn enwedig ei fwrdd, i arwain ar berfformiad a sicrhau perfformiad o ansawdd da, gan gynnwys diogelwch, effeithiolrwydd, a phrofiad cleifion. |
| **Rheolau Sefydlog** | Mae rheolau sefydlog yn nodi'r rheolau a gweithdrefnau ar gyfer sut y mae'r sefydliad yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau. |

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Strategaeth Glinigol** | Cynllun hirdymor sy’n helpu i siapio sut y caiff gwasanaethau gofal iechyd eu dylunio a’u darparu i ddiwallu anghenion cleifion a chymunedau yw Strategaeth Glinigol. |
| **Taliadau Arbennig** | Ystyr taliadau arbennig yw taliadau unigol a wneir mewn sefyllfaoedd anarferol – fel iawndal neu arwydd o ewyllys da – sydd y tu allan i weithgarwch busnes arferol y sefydliad. |

# 4 Ymateb y rheolwyr i'r argymhellion archwilio

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A1 | Dylai AaGIC fod â chanllawiau cryf a chyson i gasglu a thriongli'r wybodaeth o gyflwyniadau profiad dysgwyr. | Wrth graidd system Rheoli Ansawdd AaGIC mae llais y dysgwr. Mae arolygon a fforymau dysgwyr lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn galluogi adborth wedi'i gynllunio. Ceir offer lluosog i alluogi adborth ymatebol yn ddienw neu'n agored. Mae'r trefniadau llywodraethu mewnol yn sicrhau bod gwybodaeth a geir trwy adborth dysgwyr ac unrhyw wybodaeth arall yn cael ei thriongli ar draws proffesiynau a darparwyr ac yn cael ei huwchgyfeirio'n briodol. Mae'r grŵp goruchwylio a arweinir gan swyddogion gweithredol wedi cael ei sefydlu i sicrhau ffocws priodol ar y maes hwn. | Wedi'i gwblhau | Cyfarwyddwr Meddygol |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A2 | Dylai AaGIC egluro diben ac effaith Sesiynau Datblygu'r Bwrdd a dylunio rhaglen yn unol â hynny. | Yn Sesiwn Datblygu'r Bwrdd a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2025, bu'r Bwrdd yn trafod ac yn ystyried y dull, yr effaith a'r diben yn y dyfodol lle mae Sesiynau Datblygu Bwrdd AaGIC yn y cwestiwn. Mae camau gweithredu wedi cael eu rhoi ar waith yn seiliedig ar yr adborth o'r cyfarfod a hefyd o adborth a gafwyd o arfarniadau Aelodau Annibynnol. | Wedi'i gwblhau | Ysgrifennydd y Bwrdd |

| Cyf | Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| A3 | Dylai AaGIC gyfleu'n ffurfiol i randdeiliaid sut y gall ei bwysau ariannol greu risg i gynaliadwyedd gweithlu ehangach y GIG. | Adroddiadau ar berfformiad ariannol – bob deufis i'r Bwrdd a fydd yn ymgorffori unrhyw gamau gweithredu neu risgiau a allai effeithio ar gynaliadwyedd gweithlu'r GIG, yn enwedig lle mae'r risgiau hyn yn dod yn ffaith. Byddai'r adroddiadau hyn yn cael eu cyflwyno yn sesiynau agored y Bwrdd a byddent ar gael ar wefan AaGIC.<br>Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) – mae hwn yn cynnwys cynllun ariannol a risgiau ariannol cysylltiedig i gyflawni amcanion sy'n cynnwys datblygu gweithlu'r GIG. Byddai hwn yn cael ei gyflwyno i sesiwn agored cyfarfod y Bwrdd a byddai ar gael ar wefan AaGIC.<br>Cynllun Addysg a Hyfforddiant – mae hwn yn cynnwys cynllun ariannol a risgiau cysylltiedig peidio â buddsoddi mewn addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithlu'r GIG, yn seiliedig ar yr argymhellion. Byddai hwn yn cael ei gyflwyno i sesiwn agored y Bwrdd a byddai ar gael ar wefan AaGIC. | Bob deufis<br>Diwedd mis Mawrth 2026<br>Diwedd mis Gorffennaf 2026 | Cyfarwyddwr Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad |

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, ac adrodd ar y rhain. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi'r Archwilydd Cyffredinol, ei gynghori a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.